**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/SM/2790/25

Kate Young, Wayne Crocker, Sophie Hinksman
Cyd-gadeiryddion Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu
Kate@allwalesforum.org.uk Wayne.crocker@mencap.org.uk
sophie@allwalespeople1st.co.uk

3 Rhagfyr 2025

Annwyl Kate, Wayne a Sophie

**O Ysbytai i Gartrefi – Adroddiad gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu a Grŵp Gorchwyl a Gorffen Stolen Lives Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Tachwedd, yn cyflwyno'r 'Adroddiad o'r Ysbyty i'r Cartref ar Wasanaethau Cleifion Mewnol Arbenigol ar gyfer Anableddau Dysgu' a ysgrifennwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a holl aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen am eich amser, eich ymroddiad a'ch ymrwymiad dros y flwyddyn ddiwethaf, ac am yr holl waith a wnaed i gynhyrchu'r adroddiad cynhwysfawr hwn sy'n procio'r meddwl. Rwyf wedi ysgrifennu ar wahân at Dawn, Janis a David yn eu rhinwedd fel arweinwyr ymgyrch Stolen Lives Cymru, gan fynegi teimladau tebyg am eu harweinyddiaeth a'u natur penderfynol wrth ysgogi'r gwaith hwn.

Mae'n amlwg i mi, o'n trafodaethau blaenorol ac o'r angerdd a'r emosiwn sy'n amlwg yn yr adroddiad, bod y materion a amlinellwyd yn bersonol iawn ac wedi cael effaith sylweddol ar bawb yr effeithiwyd arnynt. Hoffwn ddiolch i chi a'ch canmol am rannu eich profiadau a helpu i lywio'r adroddiad hwn a'r argymhellion.

Fel y gwyddoch, mae lleihau nifer y bobl ag anabledd dysgu sy'n derbyn gofal tymor hir mewn lleoliadau ysbyty yn flaenoriaeth allweddol i'r Lywodraeth hon yng Nghymru. Rwyf unwaith eto yn ailadrodd ein hymrwymiad i'r egwyddor nad yw gwely ysbyty yn gartref ac y dylid gofalu am bobl ag anableddau dysgu yn y gymuned, gartref neu mor agos at y cartref â phosibl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Caerdydd
CF99 1SN
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n nodi bod yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion allweddol y mae'r awduron yn credu fydd yn helpu i leihau'n sylweddol nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n mynd i'r ysbyty o'r gymuned, ac yn helpu'r rhai sy'n derbyn eu gofal yn yr ysbyty ar hyn o bryd i ddychwelyd i'w cymunedau lleol. Er bod rhai 'buddugoliaethau cyflym' posibl, y gallwn ac y byddwn yn eu ceisio gyda'ch cymorth, bydd angen gwaith paratoi ar gyfer y mwyafrif o'r argymhellion hyn, yn ogystal ag adnoddau a buddsoddiad sylweddol cyn gwneud penderfyniadau ynghylch gweithredu. Mae argymhellion eraill yn ymwneud â materion a meysydd yr ydym wedi'u hystyried o'r blaen. Byddaf yn troi at Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu a'i arbenigedd a'i gyngor amhrisiadwy, a chyson, dros y misoedd nesaf i helpu i ddeall a mynd i'r afael â'r materion a'r heriau a godwyd yn yr adroddiad. Mae'r prif faterion yn cael eu hamlygu yn yr wyth thema yn yr adroddiad sy'n cynnwys: trawsnewid gwasanaethau cymunedol a chleifion mewnol, goruchwylio, adolygu ac eiriolaeth o fewn comisiynu, codi pryderon, diogelu, materion cyfreithiol, ymgysylltu â theuluoedd a datblygu'r gweithlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae angen gwaith cwmpasu manwl pellach i archwilio pob un o'r 8 argymhelliad thematig a phob un o'r 54 gofyniad unigol o fewn yr argymhellion hyn. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn cyfeirio at gynnwys yr adroddiad hwn a'r awgrymiadau ynddo i lunio ein blaenoriaethau cyflawni polisi wrth symud ymlaen, gan gynnwys y gwaith hanfodol a fydd ei angen i ddarparu ar gyfer newidiadau i ddod a fydd yn deillio o'r Ddeddf Iechyd Meddwl newydd. Mae'n amlwg bod ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol yn cyd-fynd yn agos gan ein bod i gyd yn dymuno gweld gwasanaeth cleifion mewnol a chymunedol cwbl integredig ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, gan weithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, a gall argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen lywio a chyfrannu'n glir at y dull gweithredu hwn.

Trwy eich ymgysylltiad parhaus â Grŵp Cynghori'r Gweinidog, rwy'n gobeithio y byddwch yn cydnabod ein bod eisoes yn cymryd camau i gyflawni ein nodau trawsnewid, er ein bod yn sylweddoli bod llawer mwy i'w wneud. Eleni rydym yn canolbwyntio'n benodol ar bedwar maes blaenoriaeth penodol. Y rhain yw: gwella data a safonau anableddau dysgu, lleihau arferion cyfyngol, gwella ansawdd a defnydd o wiriadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a lleihau hyd arhosiad cleifion mewnol sydd ag anableddau dysgu mewn ysbytai.

Mae argaeledd data cenedlaethol manwl gywir, cadarn a chyfredol yn ymwneud â chleifion mewnol ag anabledd dysgu wedi bod yn her ers nifer o flynyddoedd ac wedi effeithio'n andwyol ar ein gallu i ysgogi newid. Trwy gyflwyno ein harchwiliadau cleifion rheolaidd, mae gennym bellach wybodaeth fanwl am yr holl unigolion sydd mewn gwasanaethau cleifion mewnol, ac yn olrhain eu cynnydd, ac rydym yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd i sicrhau bod eu gofal yn cael ei drosglwyddo i'r gymuned cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd yn gweithio trwy'r broses o sicrhau bod y data hyn ar gael yn gyhoeddus fel y gellir gweld y cynnydd yr ydym yn ei wneud yn ehangach, tra'n sicrhau bod y data hyn am gleifion yn diogelu hunaniaeth unigolion.

Gan edrych tua'r dyfodol, wrth i'r Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu presennol ddod i ben ym mis Mawrth 2026, rydym am adeiladu ar y llwyddiannau a'r momentwm hyd yma, a nodi blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol i lywodraeth newydd eu hystyried. Rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, gan gynnwys Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu i edrych yn ehangach ar drawsnewid gwasanaethau anableddau dysgu ar draws Cymru. Ein dull gweithredu ni fydd cynnig canolbwyntio gofal o'r newydd yn

y gymuned ac yn agos at y cartref a sicrhau bod popeth yn eu lle ar gyfer sicrhau cymorth o ansawdd uchel.

Rydym yn agosáu at gwblhau Datganiad Ansawdd integredig ar gyfer Anableddau Dysgu, a fydd yn gosod y safonau ar gyfer modelau darparu gwasanaethau. Rydym hefyd eisiau gwella integreiddio, annog gweithio mewn partneriaeth ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector a chwilio am atebion llety sy'n galluogi cymorth ataliol cam i fyny a cham i lawr yn y gymuned.

Mae pobl ag anableddau dysgu yn flaenoriaeth uchel yn fy mhortffolio fel Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, ac yn unol ag un o themâu allweddol eich adroddiad, rwy'n ystyried mecanweithiau priodol i sicrhau fy mod yn goruchwylio a chraffu fel rydych chi'n credu sy'n ofynnol. Mae hyn yn cynnwys y potensial ar gyfer rhoi rôl uwch i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu yn ystod tymor nesaf y llywodraeth. Rydym wrthi'n edrych ar hyn cyn cyflwyno arfarniad ffurfiol o opsiynau.

Wrth i ni edrych i'r dyfodol, gallwch fod yn sicr fod y Llywodraeth bresennol hon yng Nghymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella bywydau pobl ag anableddau dysgu ac i gymryd camau i sicrhau bod pawb yn cael y gofal gorau posibl i ddiwallu eu hanghenion. Bydd y gwaith rydych chi wedi'i wneud yn y grŵp gorchwyl a gorffen a thrwy gydol eich cyfranogiad â gwasanaethau a'ch ymgysylltiad â nhw yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y dyfodol.

Dros y chwe mis nesaf byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau i wella gwasanaethau a datblygu llinell sylfaen y gallwn ei defnyddio i gyflawni diwygiadau i wasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys:


- Ymgysylltu â rhanddeiliaid a hyrwyddo integreiddio traws-sector a gweithio ar y cyd.
- Alinio gweithgareddau deiliaid grantiau anableddau dysgu trydydd sector â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- Hyrwyddo cynhwysiant a chyd-gynhyrchu ar draws meysydd gwasanaeth.
- Buddsoddi mewn tîm rhaglen anableddau dysgu ymroddedig i weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'u partneriaid i gefnogi cyflawni rhaglenni yn y dyfodol
- Cwblhau'r Datganiad Ansawdd Anableddau Dysgu Integredig
- Gwell diogelu a datblygu modelau newydd o ofal integredig ar gyfer plant ac oedolion
- Sicrhau bod data'r cyfrifiad am gleifion mewnol ag anabledd dysgu yn cael ei gyhoeddi.
- Ystyried rôl uwch ar gyfer Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu i gefnogi ein taith drawsnewid

Rwy'n gwerthfawrogi efallai na fydd yr ymateb hwn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r holl faterion a phryderon penodol rydych chi wedi'u codi yn eich adroddiad, ond gobeithio y byddwch yn cydnabod y gwerth yr ydym yn ei roi ar brofiadau byw pobl ag anableddau dysgu a'n hymrwymiad i drawsnewid ein system i gefnogi gwell canlyniadau a helpu pobl i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yn y cartref, neu'n agosach at y cartref. Mae'r gwaith helaeth rydych chi wedi'i wneud i gwblhau eich adroddiad yn rhoi pwynt cyfeirio gwerthfawr i ni ar gyfer gwerthfawrogi profiadau unigol. Gallaf eich sicrhau, os bydd Llafur Cymru yn ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru, y bydd y gwaith hwn yn chwarae rhan allweddol o ran llywio ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau yn y maes hwn.

Rwy'n gwybod eich bod yn awyddus i weld eich adroddiad yn cael ei gyhoeddi a gallaf gadarnhau ein bod bellach yn gwneud trefniadau i wneud hyn, ochr yn ochr â'r ymateb hwn, mewn cysylltiad â'm datganiad ysgrifenedig arfaethedig i'r cyfarfod llawn ar ddarpariaeth a llwyddiannau ym maes anableddau dysgu yn ystod tymor presennol y llywodraeth hon. Rwy'n disgwyl y bydd hyn yn cael ei wneud ym mis Ionawr 2026.

Edrychaf ymlaen at fynychu cyfarfod rhithwir nesaf Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu ar 9 Rhagfyr a chael y cyfle i drafod eich adroddiad, fy ymateb iddo, a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn fwy manwl.

Yn gywir,



**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing